

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLWYD - CYMRU

18 GORFFENNAF 2019, 10.30AM

Ystafell Ystwyth
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

Cofnodion

Yn bresennol

Y Cyngorydd Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Tessa Hodgson (TH), Cyngor Sir Penfro
Y Cyngorydd Alun Williams, (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Neil Edwards (NE), Cyngor Sir Caerfyrddin
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hazel Lloyd-Lubran (HL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion, Dirprwyo ar ran Carys James
Joanne Silverthorne (JS), Cynrychiolydd Gofalwyr
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Ceredigion
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hefyd yn bresennol:

Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Mark Llewellyn (ML), Sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru
Michael McClymont (MM), (Cofnodion), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Martyn Palfreman (MP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Alice Woolley (AW), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau

Margaret Allen (MA), Cynrychiolydd Gofalwyr (Rhan)
Steven Griffiths (SG), Cynrychiolydd Gofalwyr
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Carys James (CJ), Cyngor Sir Ceredigion
Sarah Jennings (SJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru

Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr
Karen Chandler (KC), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Yn dilyn hynny, cyflwynodd pawb ei gilydd o gwmpas y bwrdd.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019 a Materion yn Codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Materion yn Codi:

Eitem 3: cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol 7 Mehefin 2019

Rhoddodd MP adborth ynghylch ail gyfarfod rhanbarthol y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin. Roedd cynrychiolwyr o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys hefyd yn bresennol Roedd pwyslais ar archwilio meysydd diddordeb cyffredin ar draws rhaglenni y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (er enghraifft atal a datblygu cydnerthedd cymunedol) a nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithio. Roedd materion 'byd-eang' fel caffael ac effaith amgylcheddol gwasanaethau hefyd yn feysydd posibl ar gyfer cydweithio. Roedd dull o'r fath yn cael ei annog gan Weinidogion Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai cynigion cychwynnol yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ei gyfarfod ym mis Medi. Byddai cynigion cychwynnol yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ei gyfarfod ym mis Medi. **CAM GWEITHREDU: MP**

Nodwyd y pwyntiau canlynol hefyd mewn perthynas ag eitemau penodol yn y cofnodion:

Eitem 3: Penodi cynrychiolwyr Tai ac Addysg

Dywedodd MP fod trafodaethau'n cael eu cynnal â Chartrefi Cymunedol Cymru, y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran penodi cynrychiolydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Roeddent wedi cytuno i benodi cynrychiolydd ac roeddent hefyd wedi cynnig gweithio gyda Bwrdd Gorllewin Cymru a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol eraill i fanteisio i'r eithaf ar eu mewnbwn a'u gwerth ychwanegol wrth symud ymlaen.

Eitem 3: Grŵp Arweinyddiaeth Ranbarthol

Dywedodd MP y byddai cyfarfod cychwynnol yn cael ei drefnu ar gyfer yr hydref.

Eitem 8: Cefnogi ac ymgysylltu cynrychiolwyr defnyddwyr/gofalwyr

Dywedodd MP y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal â phartneriaid statudol ac y byddai ymateb yn cael ei roi i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol maes o law. **CAM GWEITHREDU: MP**

4. Adborth o'r cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Ranbarthol, 3 Gorffennaf 2019

Rhoddodd MP wybod ei fod wedi mynd gyda'r CyngJT i'r cyfarfod diweddaraf rhwng y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, swyddogion Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Ranbarthol.

Rhoddwyd llawer o bwyslais ar wasanaethau plant a phlant sy'n derbyn gofal yn y drafodaeth gyda'r Dirprwy Weinidog. Roedd Llywodraeth Cymru yn amlwg yn awyddus i roi lle blaenllaw i'r agenda plant ar Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol i wneud iawn am ganolbwyntio ar oedolion hŷn mewn rhaglenni rhanbarthol. Rhannwyd enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth lwyddiannus a nodedig ar wasanaethau plant yng Ngorllewin Cymru yn y cyfarfod, ynghyd â chynigion i sefydlu grŵp gwasanaethau plant rhanbarthol fel rhan o'r strwythur partneriaeth ranbarthol diwygiedig.

Pwysleisiodd AT bwysigrwydd pontio rhwng oedolion a phlant fel rhan o hyn a chadarnhawyd y byddai hyn yn flaenoriaeth ar gyfer ystyried y grŵp gwasanaethau plant newydd.

Roedd y cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi cynnwys trafodaethau ar y materion canlynol:

- *Gofynion ar gyfer cronfeydd ar y cyd i gartrefi gofal:* Roedd disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn parhau i nodi y byddai cronfeydd ar y cyd corfforol yn cael eu sefydlu fel sy'n ofynnol o dan reoliadau. Penodwyd ymgynghorwyr KPMG gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau sydd ar waith ym mhob rhanbarth a disgwylir i'r gwaith maes ddechrau yn ystod yr haf.
- *Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig:* Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'r adolygiad, yr oedd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cymryd rhan ynddo yn ystod 2018, yn cael ei gyhoeddi yn fuan. (Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi ar 18 Gorffennaf). Y disgwyl oedd y byddai'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella mewn perthynas â goruchwyllo'r Gronfa Gofal Integredig gan Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol a heriau mewn perthynas â phrofi effaith rhaglenni a ariennir a dod â'r rhai llwyddiannus i'r brif ffrwd.
- *Arolygiad ar y cyd o drefniadau partneriaeth a modelau darparu integredig:* Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud bod gwaith yn cael ei wneud gan grŵp rhanddeiliaid ar ddatblygu fframwaith ar gyfer hyn, gan adlewyrchu

ymrwymiad i gael 'Cymru Iachach'. Byddai pwyslais cryf yn cael ei roi ar hunanasesu gan bartneriaethau rhanbarthol. Byddai cynigion cychwynnol ynghylch y fframwaith yn destun ymgynghoriad yn yr hydref. Nodwyd bod angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â chanlyniadau'r adolygiad o bartneriaethau strategol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5. Gwerthusiad annibynnol o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Daeth Mark Llewellyn (MLI) o Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem a rhoddodd grynodedb o'r gwerthusiad annibynnol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai hwn yn cael ei gyflawni gan gonsortïwm sy'n cynnwys Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd a byddai'n asesu effaith y Ddeddf ar unigolion, teuluoedd a gofawyr, cymunedau, gweithwyr a sefydliadau. Disgwylir y byddai'r gwerthusiad yn para am dair blynedd o fis Tachwedd 2018 (gyda'r posibilrwydd o ymestyn i bum mlynedd) a byddai'n cael ei gynnal trwy'r prism o bum egwyddor a oedd yn sail i'r Ddeddf, sef llais a rheolaeth, llesiant, cydgynhyrchu, gweithio amlasiantaethol, ac atal ac ymyrraeth gynnar. Byddai tri chwestiwn craidd yn cael eu gofyn mewn perthynas â'r rhain:

- I ba raddau y mae egwyddorion ystyrion a gwerthfawr wedi cael eu hegluro?
- Os yw'r egwyddorion wedi cael eu hegluro, i ba raddau y glynir atynt yn ymarferol ac ym mha ffyrdd?
- Os glynir atynt, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a ddymunir?

Roedd y tîm academiaidd yn cael cymorth ac yn cael ei herio gan Grŵp Cyfeirio Arbenigwyr Astudiaethau, a fyddai'n defnyddio egwyddorion cydgynhyrchu i weithio gyda'r academyddion a'r cynghorwyr arbenigol.

Yn ystod y drafodaeth a ddeilliodd o hynny, codwyd nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Mae angen eglurder a chonsensws ynghylch egwyddorion craidd fel atal er mwyn asesu effaith yn effeithiol.
- Mae angen rhoi adborth rheolaidd o ran gwybodaeth a themâu datblygol i ystod o randdeiliaid i alluogi dilysu a herio canfyddiadau.
- Mae angen ystyried effaith deddfwriaethau a pholisïau eraill ac ystyried y 'system' gyfan, gan gynnwys gofal sylfaenol. Cydnabuwyd y byddai'n anodd nodi'r achos uniongyrchol o ran newid a gwella.
- Mae angen sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r arolygiad sydd i ddod o weithio mewn partneriaeth a modelau integredig.

Diolchodd MLI i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol am eu hadborth ar yr adeg hon a chytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth gyda'r Bwrdd dros gyfnod y gwerthusiad. **CAM GWEITHREDU: MP**

6. Y diweddaraf am Raglen Trawsnewid *Gorllewin Cymru Iachach*

Rhoddodd MP y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â'r rhaglenni cymeradwy a siaradodd ymhellach am y newidiadau i lywodraethu rhanbarthol er mwyn rhoi'r sicrwydd mwyaf posibl ynghylch cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod cais ar wahân am gyllid i sefydlu Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella rhanbarthol wedi'i gyflwyno a'i fod yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn rhoi adnodd amhrisiadwy wrth rannu arferion effeithiol o bob rhan o'r rhanbarth, y DU a thu hwnt i lywio trawsnewid a sicrhau bod ymchwil yn llywio datblygiadau newydd. Yn olaf, dywedodd MP y byddai gwerthusiad allanol o'r rhaglenni a ariennir yn cael ei gomisiynu cyn bo hir.

Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf. **CAM GWEITHREDU: MP**

7. Lleoliadau'r tu allan i'r sir

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, cyflwynodd MP bapur rhagarweiniol a luniwyd ar gais y CyngAW, a oedd yn nodi maint y lleoliadau'r tu allan i'r sir ledled y rhanbarth ar gyfer oedolion a phlant ac yn nodi mentrau allweddol ledled y rhanbarth sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r mater a lleihau'r nifer. Roedd y ffocws i ddechrau ar gartrefi gofal, gyda'r bwriad o ehangu'r dadansoddiad i leoliadau eraill dros amser. Byddai hyn yn darparu sylfaen ar gyfer trafodaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn rheolaidd, o ran tueddiadau ac effaith mesurau adferol. Cytunwyd bod rôl y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o ran cefnogi gwelliannau yn y maes hwn yn un bwysig. Croesawyd a nodwyd yr adroddiad.

8. Diweddariad ynghylch Cronfa Gofal Integredig 2019-20

Rhoddodd KM grynodedb o'r gwariant refeniw a adroddwyd ar hyn o bryd (diwedd Chwarter 1) yn rhaglen y Gronfa Gofal Integredig, a fyddai'n cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru yn fuan. Y cyfanswm oedd £899,810.79, sy'n cynrychioli 7.86% o gyllideb refeniw 2019/20. Dywedwyd wrth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol nad oedd hyn yn debygol o gynrychioli cyfanswm y gwariant, gan fod costau ychwanegol yn debygol ond heb gael eu hawlio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n dal dyraniad y Gronfa Gofal Integredig. Roedd cydweithwyr yn gweithio i wella prydlondeb hawliadau. O ystyried hyn, rhagwelwyd y byddai'r dyraniad rhanbarthol yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Darparwyd uchafbwyntiau'r rhaglenni refeniw a chyfalaf, gyda KN yn nodi'n benodol yr ystod o raglenni arloesol ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth a chyfraniad gweithgar dinasyddion a sefydliadau trydydd sector wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau. Un enghraifft oedd datblygu'r Siarter Anableddau Dysgu, a fyddai'n cael

ei lansio yn Sioe Sir Benfro ym mis Awst gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd KN wrth yr aelodau i gysylltu â hi'n uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni refeniw a chyfalaf.

9. Cyflwyniad Diwedd Blwyddyn gan Hyfforddai Graddedig, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Cyflwynodd MP yr eitem, gan roi gwybod i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol fod Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn ffodus i fod yn rhan o raglen raddedigion Cymru gyfan a gynhaliwyd gan Academi Cymru. Roedd Alice Woolley (AW) wedi bod yn rhan o'r tîm Cydweithredu Rhanbarthol ers mis Awst 2018 a byddai ail hyfforddai yn cymryd ei lle ym mis Awst 2019. Bu ei chyfraniad i waith y bartneriaeth yn sylweddol. Roedd yn ofynnol i hyfforddeion greu cyflwyniad am eu profiad i'w huwch-gydweithwyr ar ddiwedd eu lleoliadau a chytunwyd y byddai AW yn cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Roedd dau gynrychiolydd o Academi Cymru yn bresennol i weld yr eitem.

Yn ei chyflwyniad, rhoddodd AW ragor o wybodaeth am y rhaglen i raddedigion a'r meysydd yr oedd hi wedi canolbwyntio arnynt yn ei lleoliad cychwynnol gyda Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Roedd y rhain wedi cynnwys meysydd blaenoriaeth allweddol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac roeddent fel a ganlyn:

- Datblygu gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol
- Sefydlu fforwm arloesi (darparwyr) rhanbarthol
- Cefnogi gwaith gofalwyr di-dâl yn y rhanbarth
- Cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol ac annog pobl i weithio yn y sector gofal

Ei hargraff ar ddiwedd 12 mis oedd bod gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn amrywiol ac yn drawsnewidiol. Gwnaeth yr ymrwymiad ar draws y partneriaid i wella ac integreiddio argraff arni, er gwaethaf heriau sylweddol gan gynnwys gwahaniaethau sefydliadol a gwleidyddol, daearyddiaeth a chyfathrebu.

Mae gwybodaeth ac ymagwedd dda'r tîm bach tuag at weithio wedi creu argraff arni. Nid yw'r gwaith heb ei heriau - soniwyd am rwystrau sefydliadol, llywodraethu, cyfathrebu, heriau gwleidyddol ac amrywiaeth ddaearyddol. Rhannodd ffyrdd posibl o oresgyn heriau o'r fath a nododd fod y gwaith yr oedd hi wedi bod yn rhan ohono wedi bod yn werth chweil ac yn brofiad gwerthfawr dros ben.

Diolchodd MP i AW am ei chyfraniad sylweddol i waith y Bartneriaeth a'i chanmol am ei phroffesiynoldeb a'i gallu i ddylanwadu ar agenda gymhleth mewn ffordd gadarnhaol. Llongyfarchodd aelodau eraill AW ar ei chyfraniad a'i hannog i ystyried gweithio yn y maes hwn ar ôl cwblhau ei chwrs. Dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol.

10. Eitemau er gwybodaeth

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol [Dolen](#)

Adroddiad Blynyddol Gofalwyr [Dolen](#)

Adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfranogiad y trydydd sector i Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol - darperir papurau yn yr atodiad

Amlinellodd MP bob un o'r eitemau uchod yn fyr a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd eu darllen. Nodwyd hyn.

11. Y cyfarfod nesaf: 19 Medi 2019, 10:30 Caerfyrddin

12. UNRHYW FATER ARALL

Cynigiodd JH y dylid ehangu aelodaeth y Bwrdd i gynnwys cynrychiolaeth o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru oherwydd ei gyfraniad hanfodol i agenda'r Bwrdd. Cytunwyd ar hyn a phenderfynwyd anfon gwahoddiad ffurfiol. **CAM GWEITHREDU: MP**

Trafodwyd gwerth cynnal sesiwn fanwl o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ystyried cyfraniad tai ac addysg i'w agenda, gan fod yr aelodaeth wedi cael ei hehangu'n ddiweddar i gynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd hyn. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drefnu ar gyfer yr hydref. **CAM GWEITHREDU: MP**

Gwahoddodd y CyngJT gynifer o unigolion â phosibl i gefnogi lansio'r Siarter Anableddau Dysgu ar 13 Awst 2019 yn Sioe Sir Benfro. Dywedodd JH ei fod hefyd yn cael ei lansio gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda cyn bo hir.